

Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

26 Hydref 2018

Annwyl Vaughan

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ddoe i drafod Bil Awstiaeth (Cymru). Fe wnaethoch chi gytuno i ddarparu manylion pellach am eich Cod Ymarfer drafft, gan gynnwys ystyried cysoni rhwng ardaloedd i'w gynnwys yn y Cod a'r Bil fel y mae ar hyn o bryd. Fe wnaethoch hefyd ddweud y byddech yn darparu rhagor o wybodaeth am amseroedd aros yn ôl ardaloedd bwrdd iechyd.

Dyma rai meysydd pellach y byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi eglurhad arnynt:

1. Yn ystod y cyfarfod, dywedasoch nad oeddech chi'n credu mai deddfwriaeth sy'n ymwneud â chyflwr penodol yw'r ffordd briodol ymlaen ond mae'n ymddangos y byddai'ch Cod Ymarfer statudol arfaethedig yn ymwneud â chyflwr penodol. A allwch chi gadarnhau ai dyna'r achos a pham eich bod chi'n credu bod Cod Ymarfer sy'n ymwneud â chyflwr penodol yn briodol os nad yw deddfwriaeth;
2. Sut y bydd y Cod yn mynd i'r afael ag anghenion ehangach person y tu hwnt i ofal cymdeithasol ac iechyd, gan gynnwys cyflogaeth, tai a chynhwysiant cymdeithasol;
3. Rydym wedi clywed bod unigolion ag ASD ac IQ uchel heb anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl hefyd yn ei chael hi'n anodd iawn cael gafael ar gymorth (e.e. cymorth cyflogaeth) ac yn syrthio drwy fylchau mewn deddfwriaeth bresennol (gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn gymwys i gael cymorth). A allwch chi egluro sut y bydd y Cod yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn helpu'r garfan hon o bobl;
4. Cadarnhad y bydd gan gyrff iechyd ddyletswydd i weithredu a dilyn y gofynion o dan y Cod;
5. Rydym wedi clywed bod rhai teuluoedd yn cael trafferth cael gwybodaeth am wasanaethau mewn fformat priodol. A allwch chi gadarnhau a ydych chi'n gwneud y wybodaeth ar gael mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg, ac mewn fformat hawdd ei ddeall.



Bydd y Pwyllgor yn trafod ei adroddiad drafft ar 21 Tachwedd, felly byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu'r wybodaeth hon mewn pryd ar gyfer ein trafodaethau (os bydd yr ymgynghoriad ar gyfer y Cod yn cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Tachwedd, bydd yn rhy hwyr i gael dylanwadu ar ein hadroddiad).

Cofion

A handwritten signature in black ink, reading "Dai Lloyd AC". The signature is written in a cursive style with a large initial 'D'.

Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

